**TGAU**

3010NA0-1

W25-3010NA0-1

**DYDD GWENER, 10 IONAWR 2025 – BORE**

# LLENYDDIAETH GYMRAEG
## UNED 1: Barddoniaeth
## HAEN UWCH

1 awr 15 munud

**DEUNYDDIAU YCHWANEGOL**

Llyfryn ateb 16 tudalen CBAC (pinc).

**CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR**

Defnyddiwch inc neu feiro du.
**Un cwestiwn gorfodol** ar farddoniaeth sydd ar y papur hwn.
Ni allwch ddefnyddio geiriaduron.
Dylech dreulio 15 munud yn cynllunio eich ateb.

**GWYBODAETH I YMGEISWYR**

Mae 40 marc am y cwestiwn hwn.
Bydd trefn a chywirdeb eich ysgrifennu yn cael eu hystyried yn rhan o'r asesiad.

ⓗ WJEC CBAC Cyf.

**1.** Darllenwch y **ddwy** gerdd ganlynol yn ofalus.

Yn y cerddi, mae'r beirdd **yn defnyddio coed a delweddau o goed er mwyn dweud eu neges**.

**Cymharwch** y **ddwy** gerdd gan ddangos sut maen nhw'n debyg neu'n wahanol.

Dylech drafod:

- Cynnwys y cerddi yn fanwl;
- Nodweddion arddull a'r mesurau a ddefnyddir gan ystyried ydyn nhw'n effeithiol ac yn addas;
- Neges y cerddi;
- Eich ymateb personol i'r cerddi.

Wrth ateb, cofiwch **ddyfynnu'n briodol a chyfeirio at enghreifftiau penodol** i gefnogi'ch sylwadau. **[40]**

**Walkers' Wood**

***Bore hydrefol hyfryd oedd hi a Betws-y-Coed bron yn wag o ymwelwyr. Lliwiau gwych ar y coed, dim acenion main i'w clywed ar y llwybr – oedd, roedd hi'n foment farddonllyd. Ond yna, dyma'r bychan yn holi a dyma weld bod y fusutors wedi gwneud llanast o'r lle mewn mwy nag un ffordd. Dyna'r drwg efo'r diwydiant ymwelwyr – maen nhw'n dod yma gan ddyheu am baradwys ac yn mynd o'ma gan adael y lle'n stomp.***

'*Oes 'na enw ar y coed 'ma, Dad?*
*– I mi gael dweud y stori fawr wrth Taid*.'
'Coed Llugwy ydi'r enw arnynt, was,
Ond *Walkers' Wood* sydd yn y *Betws Guide*.'

'*Pam fod y dail ar hyd y ddaear, Dad?*
*Pam fod eu lliw run fath â crisps yn awr?*'
'Mae popty'r hydref wedi'u rhostio, was,
A'u taenu'n wledd ar hyd y llawr.'

'*Ble ddaeth hon, y ddeilen felen, Dad,*
*A dannedd mân ar hyd ei hymyl hi?*'
'Mae'i chwiorydd ar y gollen acw, was,
Sy'n rhannu ei gofidiau gyda'r lli.'

'*A hon, run lliw â cheiniog newydd, Dad?*'
'Mae twll ym mhwrs y ffawydd, beryg iawn.'
'*A'r rhain, fel darnau o jig-sô 'ta, Dad?*'
'Y dderwen acw ydi'r llun yn llawn.'

'*Oddi ar pa goeden y daeth nacw, Dad?*
*Mae'n wyrdd a glas, mae'n sgleinio yn y mwd.*'
'Paced o *Walkers' Crisps* 'di hwnna, was,
Ar ôl y rhai fu'n crwydro *Walkers' Wood*.'

**Myrddin ap Dafydd**

**Mewn cartre hen bobl**

Coed cam
Yn cwyno'u ffordd o gwpwrdd i gadair
Ac o wal i wely;
Rhy brennaidd i orwedd yn iawn.
Wedi gorwedd, rhy *gloëdig i godi.

Coed crin
A gollodd eu dail hydrefau yn ôl
Heb adar mwyach yn trydar o gangen i gangen
Nac yn hedfan o goeden i goeden.

*Boncyffion *crwm.

A fu hwn yn dalgryf?
A fu hon yn *llathraidd?
A fu bywyd yn *iraidd hyd flaenau'r bysedd?
Wedi lleithder sychder sydd
Mewn coed hen.

*Colfennau celyd
Yng nghlymau'r penliniau
A'r penelinoedd;
*Cnotiau pren rhosyn yng ngherfiad wyneb
– Un ar bob boch –
Hen goed.

Celyn a derw a drain
Yn coedwigo'r cartre.

Coed cam.

**J. Eirian Davies**

**Geirfa**

cloëdig – wedi'u cloi neu glymu

boncyff – bôn/gwaelod coeden
crwm – crwn

llathraidd – hardd
iraidd – ffres, llawn bywyd

colfennau celyd – canghennau neu goed caled

cnotiau – clymau

**DIWEDD Y PAPUR**

ⓗ WJEC CBAC Cyf. 

# TUDALEN WAG